

Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Cyfarwyddwr Meddygol

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr



Cyfarwyddwr Meddygol – PCGC

Mae cyfle cyffrous wedi codi i Uwch Glinigydd profiadol arwain, llunio a dylanwadu ar lywodraethu ac ymgysylltu clinigol ym Mhartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC).

Fel Cyfarwyddwr Meddygol, byddwch yn darparu arweinyddiaeth glinigol weithredol ar ran Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasaethau (SSC) i nifer o Wasanaethau Clinigol megis y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI), y Gwasanaeth Archwilio Meddygol, y Gwasanaeth Cynghori Gofal Meddygol Sylfaenol, Cronfa Risg Cymru (WRP), Ychwanegion Mewnwythiennol Canolog, Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau a Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS). Byddwch hefyd yn darparu cyngor proffesiynol i'r Tîm Cyflogaeth Arweiniol Sengl sy'n gyfrifol am gyflogi Hyfforddeion Sylfaen, Craidd ac Arbenigol Meddygol a Deintyddol yn GIG Cymru. Byddwch yn gyfrifol am wella safonau ymarfer proffesiynol yn barhaus; datblygu diwylliant sefydliadol sy'n cefnogi ymgysylltu clinigol; a hyrwyddo rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau clinigol ar draws y sefydliad a, gyda'r Prif Swyddog Meddygol a chymheiriaid, ar draws GIG Cymru.

Yn ogystal, fel Cyfarwyddwr Corfforaethol, byddwch yn cyfrannu'n effeithiol at weithrediad PCGC ac yn cydweithio â chydweithwyr gweithredol ar strategaeth a chynllunio sefydliadol.

Mae hon yn rôl ddylanwadol ac amlwg iawn, ac felly byddwch yn elwa ar gael profiad rheoli meddygol cadarn, sgiliau arweinyddiaeth cryf a gwytnwch. Bydd angen i chi feddu ar y gallu i feithrin perthnasoedd ymddiriedus yn hawdd â chymheiriaid a rhanddeiliaid ac i fod yn llysgennad ar ran PCGC, yn ogystal â'r gallu i ysbrydoli, ymgysylltu a grymuso'r gweithlu clinigol ar draws ystod o arbenigeddau meddygol. Yn olaf, bydd angen i chi fod yn angerddol ac yn dda gyda phobl, gan ymgorffori gwerthoedd GIG Cymru.

Mae hon yn rôl sy'n gofyn llawer ond sy'n werth chweil. Felly, os ydych yn credu y gallwch wneud gwahaniaeth gwirioneddol a sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau clinigol i bobl Cymru, byddem wrth ein boddau yn clywed gennych.

I gael trafodaeth anffurfiol yn ymwneud â'r rôl, cysylltwch â:

Neil Frow

Rheolwr Gyfarwyddwr

01443 848550

Neil.Frow@wales.nhs.uk

Gareth Hardacre

Cyfarwyddwr Pobl, Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth

01443 848586

Gareth.Hardacre2@wales.nhs.uk

Cefndir a chyd-destun

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn sefydliad cydfuddiannol annibynnol, sy'n eiddo i GIG Cymru ac sy'n cael ei gyfarwyddo ganddo. Fe'i ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2011 er mwyn darparu gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol rhagorol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar ran bob un o'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau yn GIG Cymru.

Ychwanegu Gwerth trwy Bartneriaeth, Arloesi a Rhagoriaeth – mae PCGC yn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol o ansawdd uchel i GIG Cymru gan weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Rydym yn rhan annatod o deulu GIG Cymru; yn cefnogi staff a chleifion Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu ystod o wasanaethau i'r meddygfeydd, deintyddion, optegwyr a fferyllfeydd cymunedol.

Fel sefydliad a letyir, mae PCGC yn gweithredu o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn atebol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau drwy Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad yn y GIG sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn ogystal â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru. Mae gennym nifer o Is-bwyllgorau a grwpiau ymynghorol hefyd, a daw aelodau'r rhain o blith ein partneriaid, rhanddeiliaid a'n defnyddwyr gwasanaethau.

Ein Gwasanaethau

Gweler isod y rhestr o'n portffolio gwasanaethau cyfredol:

- Archwilio a Sicrwydd
- Cyfrifon Taladwy
- GwrthDwyll Cymru
- Tîm Canolog e-Fusnes
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Employment Services
- E-alluogi
- Yr Academi Gyllid (Wedi'i lletya)
- Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd
- Cyfreithiol a Risg
- Gwasanaethau Golchdy
- Cyflogwr Arweiniol – Hyfforddedigion Meddygol, Deintyddol a Fferyllol (gan gynnwys meddygon teulu)
- Archwilydd Meddygol
- Gwasanaethau Contractwr Gofal Sylfaenol
- Caffael a Storfeydd
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
- Y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol
- Cynllun Aberthu Cyflog
- Cronfa Risg Cymru
- Cyflenwad Gwaed Heintiedig Cymreig

Rydym hefyd yn cefnogi'r rhwydwaith cyflenwi ar ôl Brexit o'n canolfan ddsbarthu yn IP5 yng Nghasnewydd – sydd hefyd yn gartref i'r Uned Meddygaeth Dros Dro yr ydym wedi'i hadeiladu i gefnogi ymateb GIG Cymru i Covid. Rydym yn cyflenwi chwistrelli wedi'u paratoi ymlaen llaw a weithgynhyrchir mewn amgylchedd ystafell lân a gymeradwywyd gan MRHA i Fyrddau Iechyd ledled Cymru, megis un o'r prif feysydd lle rydym wedi bod yn cefnogi ymdrechion Covid 19 GIG Cymru a hefyd wedi estyn cefnogaeth i'r sectorau Gofal Sylfaenol a Gofal Cymdeithasol.

Rydym hefyd wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Gweinidog Iechyd ar gyfer ein prosiect Trams cyffrous (a fydd yn ein gweld yn cynhyrchu meddyginiaethau mewn

amgylchedd rheoledig i gyflenwi Meddyginiaethau i GIG Cymru o hwb rhanbarthol wedi'i seilio ar fodel), a phrosiect Scan for Safety i gyflymu arloesedd ac olrhain ledled GIG Cymru. Dyma 2 fuddsoddiad sylweddol yn ein gwasanaethau i gyflawni ar agenda "unwaith i Gymru", gan adeiladu ar gefn y gwasanaethau presennol sydd eisoes gennym.

Manylion y swydd

Teitl Swydd	Cyfarwyddwr Meddygol
Band Cyflog	£133,952 – £143,596
Oriau Gwaith a Natur y Contract	Ar hyn o bryd 0.7 WTE – yn amodol ar adolygiad
Is-adran/Cyfarwyddiaeth	Corfforaethol
Adran	Meddygol
Safle	Nantgarw – mae hyblygrwydd ar gyfer gweithio gartref neu swyddfeydd PCGC eraill

Trefniadau sefydliadol

Yn atebol o ran rheolwr i	Rheolwr Gyfarwyddwr, PCGC
Yn adrodd i	Rheolwr Gyfarwyddwr, PCGC
Yn atebol yn broffesiynol i	Cyfarwyddwr Meddygol, Ymddiriedolaeth Prifysgol FelindreTrust

Pwrpas/crynodeb o'r swydd

Bydd gan y Cyfarwyddwr Meddygol rôl bwysig a gweladwy o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Gan weithio'n agos gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Uwch Dîm Rheoli, bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn darparu ffynhonnell bwysig o brofiad, arbenigedd a chynngor proffesiynol a chlinigol i'r tîm ac i Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC) ar fusnes PCGC. Bydd deiliad y swydd yn chwarae rhan ganolog, gefnogol gan weithio gyda Chyfarwyddwyr Meddygol grŵp cymheiriaid a'r Prif Swyddog Meddygol wrth gefnogi datblygiadau'r gweithlu meddygol yn GIG Cymru yn y dyfodol.

Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn gyswllt allweddol i PCGC â GIG Cymru a bydd yn datblygu partneriaethau a pherthnasoedd cryf gyda rhanddeiliaid perthnasol. Byddant yn cynrychioli buddiannau PCGC gyda mewnbwn Clinigol allweddol i arwain prosiectau strategol a gwneud penderfyniadau.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau

Prif rôl a chyfrifoldebau

- Bod yn aelod gweithgar o Uwch Dîm Rheoli PCGC.
- Cynnal arweinyddiaeth broffesiynol effeithiol ar gyfer yr holl staff clinigol cysylltiedig.
- Rhoi cyngor i'r Archwilydd Meddygol, Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI), Cyflogwr Arweiniol Sengl, Tîm Cynghori Gofal Meddygol Sylfaenol (PMCAT), Cronfa Risg Cymru (WRP), timau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBBS) ar weithlu meddygol, materion proffesiynol a rheoliadol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cyngor clinigol a chefnogaeth i'r prosiect Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMs) wrth i hyn ddatblygu.
- Bod yn Swyddog Cyfrifol am ail-ddilysu staff meddygol yn unol â deddfwriaeth berthnasol gan sicrhau bod systemau llywodraethu clinigol ac arfarnu yn gweithio ac yn briodol i'w hail-ddilysu.
- Rhoi cyngor proffesiynol i'r Uwch Dîm Rheoli a SSPC ar faterion meddygol allweddol
- Darparu arweinyddiaeth gref i staff o fewn y maes cyfrifoldeb diffiniedig
- Sefydlu partneriaethau a pherthnasoedd gwaith rhagorol gyda GIG Cymru a Llywodraeth Cymru gan adeiladu ar enw da PCGC fel sefydliad cefnogol ac arloesol.

Cyflogwr Arweiniol

- Darparu goruchwyliaeth glinigol ar gyfer rheoli Cofrestryddion Arbenigol ar bob un o'r rhaglenni hyfforddi.
- Datblygu perthnasoedd gwaith cryf gyda'r ddeoniaeth feddygol ac adrannau perthnasol eraill o Addysg a Gwella Iechyd Cymru.
- Darparu cefnogaeth a chynghori i'r tîm Cyflogwyr Arweiniol yn PCGC.

Tîm Cynghori Gofal Meddygol Sylfaenol (PMCAT)

- Darparu cyfeiriad a chefnogaeth i'r tîm PMCAT gan gynnwys agweddau perthnasol ar lywodraethu ar gyfer yr aelodau meddygol.
- Arwain wrth ddatblygu rôl PMCAT ymhellach.

Gwasanaeth Archwilio Meddygol

- Darparu cyfeiriad a chefnogaeth i dîm y Gwasanaeth Archwilio Meddygol gan gynnwys agweddau perthnasol ar lywodraethu ar gyfer yr aelodau meddygol.
- Arwain wrth ddatblygu'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol ymhellach.

Cronfa Risg Cymru (WRP)

- Mynychu cyfarfodydd Cronfa Risg Cymru i ddarparu cyngor meddygol i Bwyllgor Cronfa Risg Cymru.

- Darparu cyngor a barn i'r WRP mewn perthynas â hawliadau atebolrwydd Meddygol.
- Mae'n darparu sianel i Gyfarwyddwyr Meddygol er mwyn rhannu dysgu, gwybodaeth ac allbynnau o Gronfa Risg Cymru.

CIVAS@IP5

- Darparu cyfeiriad a chefnogaeth i arweinydd CIVAS@IP5.
- Darparu cefnogaeth ac arweinyddiaeth mewn unrhyw ddatblygiad pellach o CIVAS@IP5.

Indemniad Meddygol

- Rhoi cyngor cyffredinol ac arweinyddiaeth glinigol yng nghyd-destun Rhaglen Indemniad Meddygon Teulu GIG Cymru.
- Datblygu a chynnal perthynas effeithiol tuag allan gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Pwyllgor Meddygon Cymru a / neu Bwyllgorau Meddygol Lleol, y Bwrdd Iechyd, Meddygon Teulu ac arweinwyr Gofal Sylfaenol.

Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru

- Darparu cyfeiriad a chefnogaeth i dîm WIBSS.
- Datblygu perthnasoedd gwaith cryf gyda rhanddeiliaid allweddol.

Manyleb y person

RHINWEDDAU	HANFODOL	DYMUNOL
Cymwysterau a/neu Wybodaeth	<p>Gweithiwr Meddygol Cymwysedig</p> <p>Cofrestriad gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol â thrwydded i ymarfer</p> <p>Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus</p> <p>Tystiolaeth o gyfranogiad llwyddiannus rheolaidd mewn arfarnu</p> <p>Cymwysterau meddygol Ôl-raddedig perthnasol, gan gynnwys aelodaeth / cymrodoriaeth Coleg Brenhinol, MD neu gyfwerth</p> <p>Tystiolaeth bellach o hyfforddiant neu brofiad rheoli ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus</p>	

RHINWEDDAU	HANFODOL	DYMUNOL
Profiad	<p>Cymwysterau meddygol gyda chefnidir mewn Gofal Sylfaenol neu Eilaidd neu Iechyd Cyhoeddus</p> <p>Profiad helaeth o arwain a rheoli ar lefel uwch yn y GIG neu sector sy'n gysylltiedig â iechyd gyda hanes amlwg o gyflawni</p> <p>Dealltwriaeth fanwl o'r cyd-destun ar gyfer addysg feddygol yng Nghymru, y GIG a gafael gref ar bob agwedd ar ddatblygiad gyrfa feddygol</p> <p>Dealltwriaeth fanwl o reoleiddio meddygol gan gynnwys prosesau Cyngor Meddygol Cyffredinol a lleol</p> <p>Dealltwriaeth fanwl o systemau a phrosesau ymglyfreitha meddygol, yn enwedig yng nghyd-destun Ymarfer Cyffredinol</p> <p>Hanes profedig o arwain newid sylweddol o fewn systemau aml-broffesiynol cymhleth</p> <p>Cychwyn a hwyluso gwaith partneriaeth strategol a chynghreiriau yn llwyddiannus trwy sgiliau rheoli perthnasoedd rhagorol</p> <p>Profiad o gynnal trafodaethau sensitif</p>	
Doniau a Galluoedd	<p>Arloesol, gyda dull gweithredu cryf sy'n canolbwyntio ar wasanaeth, sgiliau cyfathrebu eithriadol, rhyngbersonol, trafod a dylanwadu</p> <p>Y gallu i ddarparu arweinyddiaeth effeithiol, agored, di-ffuant a gweladwy i feithrin ysbryd tîm positif ac ysbrydoli, ysgogi a chefnogi cydweithwyr</p> <p>Yn ymarfer barn gadarn a gwneud penderfyniadau ac yn barod i gael ei ddwyn i gyfrif am benderfyniadau, gweithredoedd a dewisiadau a wneir yn bersonol ac a wneir gan staff</p> <p>Ffocws cryf ar wella ansawdd, effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd</p>	

	<p>Bod yn esiampl i staff, ac ymrwymo i werthoedd ac ymddygiadau'r GIG</p> <p>Y gallu i feddwl yn strategol ac i fynegi ymdeimlad clir o gyfeiriad a gweledigaeth i staff a rhanddeiliaid</p> <p>Sgiliau datrys problemau a dadansoddi manwl, a'r gallu i gymhwyso creadigrwydd i ddod o hyd i atebion amgen i faterion cymhleth.</p>	
Arall		Siaradwr Cymraeg

Datganiad hyblygrwydd

Amlinellir dyletswyddau'r swydd yn y Swydd Ddisgrifiad hwn a Manyleb yr Unigolyn, a gellid eu newid gyda chytundeb y ddwy ochr o bryd i'w gilydd.

Gofynion cyffredinol

Gwerthoedd: Mae'n rhaid i bob un o weithwyr y Bwrdd Iechyd arfer a gwreiddio'r Datganiadau Gwerthoedd ac Ymddygiad er mwyn iddynt ddod yn rhan anhepgor o fywyd gwaith deiliad y swydd ac er mwyn i'r egwyddorion gael eu gwreiddio yn niwylliant y sefydliad.

Cymhwysedd: Ni ddylai deiliad y swydd weithio y tu hwnt i'w lefel cymhwysedd ddiffiniedig ar unrhyw adeg. Os oes unrhyw bryderon ynghylch hyn, dylai deiliad y swydd eu trafod ar unwaith gyda'i Reolwr/Goruchwyliwr. Mae'n ddyletswydd ar gyflogaion i hysbysu eu Rheolwr/Goruchwyliwr os ydynt yn amau eu cymhwysedd eu hunain i gyflawni dyletswydd.

Dysgu a Datblygu: Rhaid i'r holl staff gymryd rhan mewn rhaglenni sefydlu ar lefel Gorfforaethol ac Adrannol a rhaid sicrhau bod unrhyw ofynion hyfforddiant statudol/gorfodol yn gyfredol ac wedi eu diweddarau. Lle ystyrir hynny'n briodol, bydd yn ofynnol i staff ddangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Arfarnu Perfformiad: Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein staff ac rydych chi'n gyfrifol am gymryd rhan mewn Adolygiad Perfformiad a Datblygiad Blynyddol ar gyfer y swydd.

Iechyd a Diogelwch: Mae gan holl gyflogaion y sefydliad ddyletswydd gofal statudol am eu diogelwch personol eu hunain a diogelwch eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu eu hanweithiau. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd gydweithio â'r rheolwyr i alluogi'r sefydliad i fodloni ei ddyletswyddau cyfreithiol ei hun ac i roi gwybod am unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu offer diffygiol. Rhaid i ddeiliad y swydd gadw at bolisiau Rheoli Risg, Iechyd a Diogelwch a pholisiau cysylltiedig y sefydliad.

Rheoli Risg: Mae rheoli risg yn rhagweithiol yn un o elfennau safonol y rôl, ac mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o staff yn y sefydliad i sicrhau hyn ym mhopeth a wna. Mae hyn yn cynnwys asesu risg yr holl sefyllfaoedd, gweithredu'n briodol a hysbysu am yr holl ddigwyddiadau, damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd a pheryglon.

Y Gymraeg: Mae'n rhaid i bob gweithiwr gyflawni ei ddyletswyddau mewn modd sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y sefydliad, ynghyd ag achub ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddelio â'r cyhoedd.

Llywodraethu Gwybodaeth: Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn ymwybodol drwy'r amser o bwysigrwydd cynnal cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth a gesglir yn ystod cyflawni ei ddyletswyddau. Mewn llawer o achosion bydd hyn yn cynnwys mynediad at wybodaeth bersonol sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau.

Deddf Diogelu Data 1998: Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd drin pob gwybodaeth, boed yn wybodaeth gorfforaethol, yn wybodaeth am staff neu'n wybodaeth am gleifion, mewn modd cynnil a chyfrinachol yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 a Pholisi'r Sefydliad. Ystyrir torri cyfrinachedd yn drosedd ddisgyblu ddifrifol, sy'n medru arwain at ddiswyddo a/neu erlyn dan ddeddfwriaeth statudol gyfredol (Deddf Diogelu Data) a Pholisi Disgyblu'r Bwrdd Iechyd.

Rheoli Cofnodion: Fel un o weithwyr y sefydliad hwn, mae deiliad y swydd yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am yr holl gofnodion y mae'n eu casglu, yn eu creu neu'n eu defnyddio fel rhan o'i waith o fewn y sefydliad (gan gynnwys iechyd cleifion, iechyd neu anafiadau staff, materion ariannol, personol a gweinyddol), ar bapur neu ar gyfrifiadur. Ystyrir pob cofnod o'r fath yn gofnod cyhoeddus, ac mae gan ddeiliad y swydd ddyletswydd gyfreithiol i barchu cyfrinachedd defnyddwyr y gwasanaeth (hyd yn oed ar ôl i gyflogai adael y sefydliad). Dylai deiliad y swydd ymgynghori â'i reolwr os oes ganddo unrhyw amheuan ynghylch rheolaeth gywir cofnodion y mae'n gweithio gyda nhw.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi dyletswydd gadarnhaol ar y Bwrdd Iechyd i hybu cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchoddedig, fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus. Ceir naw nodwedd warchoddedig: oedran, anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau na fydd yr un ymgeisydd am swydd na chwaith yr un cyflogai yn derbyn triniaeth lai ffafriol oherwydd unrhyw un o'r nodweddion uchod. I'r perwyl hwn, mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb ac mae disgwyl i bob gweithiwr gyfrannu at ei lwyddiant.

Urddas yn y Gwaith: Mae'r sefydliad yn condemnio pob math o fwlio ac aflonyddu ac mae'n ymdrechu'n ddiwyd i geisio hyrwyddo gweithle lle bydd cyflogedigion yn cael eu trin yn deg a chyda pharch ac urddas. Gofynnir i staff roi gwybod am unrhyw ffurf ar fwlio ac aflonyddu i'w rheolwr llinell neu i unrhyw un o gyfarwyddwyr y sefydliad. Ni fydd unrhyw ymddygiad amhriodol yn y gweithle yn cael ei oddef a bydd yn cael ei drin fel mater difrifol dan Bolisi Disgyblu'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth.

Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Yn y rôl hon bydd gennych gysylltiad anuniongyrchol â chleifion/defnyddwyr gwasanaethau/plant/oedolion sy'n agored i niwed wrth gyflawni'ch dyletswyddau arferol. Ni fydd angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ddeiliad y swydd.

Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed: Mae'r sefydliad hwn wedi ymrwymo i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. O'r herwydd, mae'n rhaid i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant Diogelu Plant a bod yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb o dan y Polisi Amddiffyn Oedolion.

Rheoli Heintiau: Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i fodloni ei rwymedigaethau i leihau heintiau. Mae'r holl staff yn gyfrifol am amddiffyn a diogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, ymwelwyr a chyflogeion rhag y risg o gael heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys bod yn ymwybodol o gynnwys Polisiâu a Gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau'r Bwrdd Iechyd a'u dilyn yn gyson.

Dim Ysmygu: Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'r holl gleifion, ymwelwyr a staff fod yn iach, mae holl safleoedd y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys yr adeiladau a'r tir o amgylch, yn rhai di-fwg.

Am fwy o wybodaeth am y broses ymgeisio ac i wneud cais:

<https://www.jobs.nhs.uk/xi/vacancy/916607510>